# Gweithlen

Ydych chi'n astudio ar gyfer arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith?

Darllenwch IAW bob mis.
Bydd digon o erthyglau difyr a diddorol i'ch helpu i baratoi at yr arholiad.

Sut mae darllen IAW yn gallu helpu?

Yn gyntaf, ar dudalen 2 a 3 bob mis mae llythyrau diddorol dros ben gan ddysgwyr o bob rhan o Gymru ac mae safon (*standard*) eu Cymraeg yn wych.

**DARLLENWCH** y tri llythyr yma o gylchgrawn Tachwedd 2017 gan Tianna, Cauley a Destiny.

**Cofiwch ddefnyddio strategaethau deall iaith i'ch helpu.**
e.e.
geiriau tebyg i'r Saesneg
gwybodaeth flaenorol
cyd-destun
dyfalu (*guess*)
gofyn i bartner
defnyddio geiriadur
sgimio a sganio

Annwyl IAW
Shw' mae! Destiny ydw i. Dw i'n hoffi chwarae pêl-rwyd achos mae'n llawn sgiliau. Dw i'n mwynhau chwarae pêl-fasged achos mae'n fy nghadw i'n iach. Dw i ddim yn hoffi rhedeg achos mae'n ddiflas. Dw i ddim yn mwynhau chwarae rygbi achos mae'n beryglus. Dw i'n dwlu ar chware pêl-rwyd achos mae'n llawer o hwyl. Fy hoff chwaraeon ydy nofio achos mae'n heriol.
Dw i'n hoffi gwylio ffilmiau animeiddio fel 'Moana' achos mae'n dipyn o hwyl i bawb. Dw i ddim yn hoffi gwylio ffilmiau arswyd achos mae nhw'n fy ngwneud yn ofnus. Mae Labeeba yn hoffi gwylio ffilmiau fel 'Finding Dory' achos mae'r stori yn anhygoel.
Hwyl fawr,
**Destiny**

**Annwyl IAW**
Shw' mae. Cauley ydw i. Dw i'n un deg dau oed. Dw i'n byw yn Gelli Fedw, Abertawe.
Fy hoff chwaraeon ydy 'dodge ball' a phêl-droed achos maen nhw'n gystadleuol a chyflym. Fy nghas chwaraeon ydy gymnasteg achos mae'n rhy anodd. Hoffwn i drio pêl-fasged achos mae'n gyflym a llawer o hwyl.
Dw i'n mwynhau gwylio ffilmiau antur fel 'Fast and Furious' a 'Now You See Me' ond dw i ddim yn hoffi gwylio ffilmiau rhamant. Fodd bynnag dw i'n hoffi ffilmiau hanesyddol fel 'Titanic'.
Hwyl
**Cauley**

**Annwyl IAW**
Shw' mae. Tianna ydw i. Dw i'n 13 oed a dw i'n byw yn Penlan.
Dwi'n hoffi chwarae rownderi achos mae'n gyffrous ond dw i ddim yn hoffi chwarae golff achos mae'n ddiflas! Fy hoff chwaraeon ydy pêl-rwyd achos mae'n fywiog. Fy nghas chwaraeon ydy pêl-droed achos mae'n sbwriel. Mae Sophie yn dwlu ar gymnasteg ond yn fy marn i, mae gymnasteg yn dwp! Hoffwn i drio sgïo!
Dw i'n hoffi gwylio ffilmiau comedi fel '50 First Dates' achos mae'n ddoniol ond dw i'n casáu gwylio ffilmiau arswyd fel 'Scream' achos mae'n frawychus. Fel Irwin, dw i'n dwlu ar ffilmiau animeiddio achos maen nhw'n dda ond yn wahanol i Chloe, dw i'n casáu ffilmiau rhamant achos maen nhw'n dwp. Fy hoff ffilm ydy Harry Potter and the Prisoner of Askaban achos mae'n gyffrous. Ffilm ffantasi ydi hi. Dw i'n hoffi Daniel Radcliffe ond fy hoff actores ydy Leah Michelle.
**Tianna**

**Nawr, atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf.**
Dyma'r math o gwestiynau bydd rhaid i chi ateb ar y papur arholiad TGAU, Uned 4 - 'disgrifiadol, creadigol a dychmygus'.

Bydd rhai tasgau'n gofyn am **ymateb di-eiriau** (rhoi ✓ mewn bocs neu gylch o amgylch gair/geiriau) a rhai tasgau'n gofyn am **ymateb ysgrifenedig**.

# A. Tasgau gydag ymateb di-eiriau

(a) Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Faint o chwaraeon mae Tianna'n fwynhau? | 6 | 2 | 5 | 3 |
| Pa fath o ffilmiau mae Cauley yn hoffi? (2) | rhamant | hanes | antur | comedi |
| Faint o chwaraeon mae Destiny'n sôn amdanyn nhw yn ei llythyr? | 7 | 4 | 6 | 8 |

(b) Ydy Tianna'n cytuno gyda'i ffrind am gymnasteg? Ydy / Nag ydy

(c) Ydy Cauley'n mwynhau gêmau pêl? Ydy / Nag ydy

(ch) Ydy Destiny'n hoff o ffilmiau gydag ychydig o hwyl? Ydy / Nag ydy

# B. Tasgau gydag ymateb ysgrifenedig.




(i) Mae Tianna yn casau ffilmiau arswyd a ffilmiau rhamant.
- (a) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda Tianna? Rhowch 2 reswm yn Gymraeg.
- (b) Beth ydy eich hoff ffilm? Ysgrifennwch 2 frawddeg yn Gymraeg.

(ii) Mae Cauley'n dweud 'Hoffwn i drio pêl-fasged.'
- (a) Ydych chi'n chwarae pêl-fasged neu'n ffansïo trio pêl-fasged? Rhowch 2 reswm yn Gymraeg.
- (b) Pa gêmau eraill hoffech chi drio? Ysgrifennwch 2 frawddeg yn Gymraeg.



# C. Ymateb i ysgrifennu personol.

**DARLLENWCH** y llythyrau gan Tianna, Cauley a Destiny eto.

| Nodwch **2** beth sy'n **debyg** rhwng **Tianna a Destiny**. | |
|---|---|
| Beth sy'n debyg? | 1. |
| | 2. |

| Nodwch **2** beth sy'n **wahanol** rhwng **Cauley a Destiny**. | |
|---|---|
| Beth sy'n wahanol? | 1. |
| | 2. |

Trafod ysgrifennu personol.

(a) adnabod yr agweddau da yn y gwaith

**Annwyl IAW**
Shw' mae. Destiny ydw i. Dw i'n hoffi chwarae pêl-rwyd achos mae'n llawer o hwyl. Dw i'n marchogaeth ceffylau achos mae'n ymlaciol. Dw i'n casáu rygbi achos mae'n beryglus. Dw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n ddiflas. Dw i ddim yn mwynhau beicio achos mae'n beryglus ond dw i'n dwlu ar chwarae hoci achos mae'n fy nghadw fi'n iach. Fy hoff chwaraeon ydy pêl-rwyd achos mae'n hwyl. Fy nghas chwaraeon ydy pêl-fasged achos mae'n ddiflas.

Dw i'n hoffi gwylio ffilmiau comedi fel '50 First Dates' achos mae'n ddoniol. Dw i ddim yn hoffi ffilmiau animeiddio fel 'Moana' achos mae'n ddiflas. Mae fy ffrind Destiny yn hoffi gwylio ffilmiau rhamant fel 'Yours, Mine and Ours' achos mae'n stori wych. Yn wahanol i Destiny, dw i ddim yn hoffi ffilmiau rhamant achos yn fy marn i maen nhw'n wastraff amser.

Hwyl fawr,
**Destiny.**

**Beth sy'n dda yn y llythyr yma?**

- mynegi barn
- cynnig rheswm i gefnogi barn (*support opinion*)
- trydydd (*3rd*) person
- ansoddeiriau ymestynnol

Ydych chi'n gallu ffeindio enghreifftiau o'r uchod yn y llythyr?

Hefyd:
- geiriau sy'n cyfoethogi (*enrich*) iaith e.e. fel, yn wahanol i

Ydych chi'n gallu meddwl am unrhywbeth arall sy'n gwneud y llythyr yn dda?

(b) cynnig syniadau i wella darn o waith

Annwyl IAW

Fy enw i ydy Lauren. Rydw i'n un deg dau oed, Rydw i'n byw ym Mwcle. Mae gen i un anifail anwes o'r enw Molly. Mae gen i ddau frawd o'r enw Macauley a Benjamin. Mae gen i wallt brown a llygaid brown. Rydw i'n hoffi chwarae pêl-rwyd gyda fy mlwyddyn yn yr ysgol. Rydw i'n mynd i Ysgol Maes Garmon. Mae gen i sbectol fawr. Dw i'n mwynhau Ysgol Maes Garmon oherwydd mae'r gwersi yn grêt gyda Mrs Thomas. Fy hoff bwnc yw Cymraeg a Saesneg. Mae fy mhen-blwydd ym mis Rhagfyr. Dydw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed na rygbi. Dw i'n hoffi nofio a rhedeg.

Lauren

efo'r teulu.
Mae gen i ddau frawd o'r enw ...
ac anifail anwes o'r enw ...

a gwallt a llygaid brown.

Pam?

ac mae fy mhen-blwydd ym mis Rhagfyr.

ac hefyd rydw i'n hoffi chwarae pel-rwyd...

Dweud pam ac yna 'ond dw i ddim yn hoffi chwarae ...'

Eich tro chi nawr/rwan.

**YSGRIFENNWCH lythyr** neu **ebost** at a bydd cyfle i ennill copi o'r cylchgrawn bob mis am flwyddyn gyfan! (*a whole year*).

| **Meini prawf llwyddiant** | |
|---|---|
| **Cynnwys y llythyr** | **Iaith** |
| Dylech chi gynnwys:<br><br>• enw (wrth gwrs)<br>• oed a phen-blwydd<br>• ble ydych chi'n byw a gyda phwy<br>• enw/oed brawd neu chwaer<br>• anifeiliaid anwes<br>• enw eich ysgol gan gynnwys hoff bwnc a pham<br>• enw eich ffrind/iau a ble rydych chi'n hoffi mynd gyda fe/hi/nhw<br>• eich hobi<br>• hoff a chas chwaraeon neu ffilm neu grŵp pop a rheswm<br>• eich gwyliau (ble rydych chi wedi bod, ble rydych chi'n mynd, ble hoffech chi fynd yn y dyfodol)<br> | Dylech chi drio defnyddio:<br><br>• person 1af a'r 3ydd person (unigol a lluosog) hynny yw: fi, fo/fe, hi ni, nhw<br>• presennol (dw i'n, mae hi'n, rydyn ni'n ... etc)<br>• dyfodol (bydda i'n, bydd e'n, byddan nhw'n ... etc)<br>• gorffennol (es i/aethon ni ...etc)<br>• amodol (hoffwn i. hoffai o/hi, hoffen ni ... etc)<br><br>Hefyd dylech chi<br><br>• fynegi barn (mwynhau, wrth fy modd, hoff iawn o, eitha hoff o, fy hoff ... etc yn lle defnyddio 'hoffi' bob amser)<br>• cynnig rhesymau (achos/oherwydd)<br>• defnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio pobl, pethau etc<br>• defnyddio idiomau – ond byddwch yn ofalus!<br>• defnyddio cysyllteiriau – a/ond/hefyd<br>• geiriau llanw: fel/yn wahanol i/wrth gwrs/ambell waith |

Anfonwch eich **llythyr** at:




Anfonwch eich ebost at:
**iaw@urdd.org**

**Pob lwc!**